

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR GWAITH 24.9.2019

Presennol – Cyng W T Owen, J W Parry, C Williams, D Jones, C Larsen (Cadeirydd), R Thomas, , A Hopcyn a'r Cyng W L Davies (aelod ex-officio)

1. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd Sion Evans i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Gwaith yn dilyn ei benodiad fel Clerc y Cyngor Tref.

2.Ymddiheuriadau

Cyng W R Owen, I C Thomas

3. Datgan Buddiant Personol

J W Parry – eitem 4 ar y rhaglen (ac eitem 5 isod) – Parc Coed Helen.

Arhosodd yn yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc), er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Parc Coed Helen

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Busnes diwygiedig o ran Parc Coed Helen, gyda'r prif addasiadau yn y ffigyrau yn ymwneud â lleihad potensial yn y costau Cynnal Tir – yn benodol o ran torri gwair.

Aeth y Cadeirydd trwy'r Cynllun Busnes mewn manylder.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar y Cynllun Busnes a'r materion eraill i'w cadw mewn cof, er enghraifft:

- Y trefniadau o ran y Clwb Bowlio.
- Y fflat ar y safle a'r rent ar ei gyfer.

- Trefniadau talu am barcio i greu incwm, yn arbennig o gofio fod llawer o Motorhomes yn parcio dros yr Aber.
- Y trefniadau am gasglu arian.
- Yswiriant y safle, oedd yn cael ei sortio gan Gyngor Gwynedd.

Nododd y Cadeirydd ymhellach y gallasai unrhyw incwm fyddai'n cael ei gynhyrchu gael ei fuddsoddi yn y dref, ei fod yn fuddsoddiad risg gymharol isel, a gellid adeiladu ar y cynllun fel mae'r blynyddoedd yn mynd heibio.

Penderfynwyd:

- (1) **Cymeradwyo, mewn egwyddor (ac efo'r wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd), fod y Cyngor Tref yn cymryd Parc Coed Helen drosodd gan Gyngor Gwynedd o Ebrill 2020.**
- (2) **Datgan yn glir fod gan y Cyngor Tref yr hawl i dynnu'n ôl o hyn pe byddai amgylchiadau yn newid.**
- (3) **Gofyn i'r Cadeirydd wirio beth oedd y sefyllfa o ran glanhau'r toiledau.**

6. Adolygu Effeithiolrwydd

- **Torri Gwair**

Nodwyd nad oedd cwynion wedi dod i law, a bod pedwar toriad y flwyddyn i weld yn ddigonol.

Penderfynwyd:

- (1) **Gan fod newidiadau yn y trefniadau a'r diwrnod roedd Cyngor Gwynedd am hel sbwriel yn y dref (yn weithredol o fis Tachwedd), y dylid trafod efo nhw os gallent hel ar ddiwrnod yn hytrach nag ar ddydd Iau (gan nad oedd Swyddog Cynnal a Chadw'r Cyngor Tref yn gweithio ar ddydd Gwener). Byddai hyn yn golygu y byddai'r gwaith yn cael ei gyd-gordio'n well.**
- (2) **Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn beth oedd eu trefniadau o ran cadw ardaloedd penodol ar gyfer blodau gwyllt, a'u gwahodd i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol agos.**

- **Swyddog Cynnal a Chadw**

Nodwyd fod Kenneth Owen, y Swyddog Cynnal a Chadw, wedi creu perthynas dda gyda gweithwyr Cyngor Gwynedd. Yr adborth oedd

fod y gwaith roedd yn ei wneud wedi gwella'r sefyllfa a gan hynny roedd nifer y cwynion wedi lleihau.

Penderfynwyd y dylai unrhyw gais am waith cynnal a chadw fynd trwy'r Clerc yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r Swyddog Cynnal a Chadw.

- **Gwyfanod**

Nodwyd fod gwyfanod dal yn broblem yn y dref.

Penderfynwyd gadael y trefniadau fel ag y mae nhw am y tro, monitro'r sefyllfa ac edrych ar y mater eto yn y dyfodol agos.

- **Llochesi Bysus**

Nodwyd fod ambell rhai llochesi bysus yn flêr iawn, a bod graffiti yn broblem benodol.

Nodwyd ymhellach fod lloches bysiau newydd wrth y Feddygfa yn Noc Fictoria, wedi ei ariannu gan y Cyngor Tref, ac y byddai'n fuddiol cael cyhoedduswydd at hyn.

Penderfynwyd:

- (1) Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn datgan fod y Cyngor Tref yn poeni am gyflwr rhai llochesi bysus, ac y byddai'r Cyngor Tref (o dan yr amgylchiadau cywir) yn fodlon cymryd rhai o'r llochesi eraill drosodd.**
- (2) Awdurdodi'r Clerc i ofyn i'r Tîm sy'n gweithio dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf i lanhau'r llochesi bysus sydd efo graffiti arnyn nhw.**

- **Biniau Halen**

Penderfynwyd:

- (1) Gofyn i aelodau wirio'r sefyllfa yn eu wardiau o ran os oedd nifer y biniau halen yn ddigonol, ac os oeddynt efo digon o halen ynddyn nhw.**
- (2) Cynnal trafodaethau efo Cyngor Gwynedd o ran sefyllfa'r biniau halen yn y dref.**

7. Meysydd parcio ac incwm posib

Nodwyd y byddai cynyddu'r tâl am barcio ym meysydd parcio Caernarfon o 10% yn debygol o greu incwm o thua £49,861.97.

Os fyddai cynnydd o'r fath yn dod yn weithredol, byddai angen cynllun clir a phendant o ran sut fyddai'r incwm ychwanegol yn cael ei ddefnyddio, a thystiolaeth ei fod yn cael ei fuddsoddi yn ôl yn y dref.

Penderfynwyd awdurdodi'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd i drafod gyda'r swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd i weld sut fyddai cynllun o'r fath yn gweithio, a dod ac adroddiad yn ôl i'r pwyllgor hwn yn ei gyfarfod nesaf.

Gorffennodd y cyfarfod am 18.15

Arwyddwyd Dyddiad

Log Gweithredu

Eitem	Pwyntiau Gweithredu	Gan Bwy	Erbyn Pryd
5 – Parc Coed Helen	Gwirio beth oedd y sefyllfa o ran glanhau'r toiledau.	Cadeirydd	Diwedd Medi
6. Adolygu Effeithiolrwydd - Torri Gwair	Trafod trefniadau a'r dyddiad hel sbwriel efo Cyngor Gwynedd.	Cadeirydd / Clerc	Hydref
6. Adolygu Effeithiolrwydd - Torri Gwair	Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn beth oedd eu trefniadau o ran cadw ardaloedd penodol ar gyfer blodau gwyllt, a'u gwahodd i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol agos.	Clerc	Hydref
6. Adolygu Effeithiolrwydd – Swyddog Cynnal a Chadw	Ceisiadau am waith cynnal a chadw fynd trwy'r Clerc yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r Swyddog Cynnal a Chadw.	Pawb	Parhaus
6. Adolygu Effeithiolrwydd – Llochesi Bysus	Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn datgan fod y Cyngor Tref yn poeni am gyflwr rhai llochesi bysus, ac y byddai'r Cyngor Tref (o dan yr amgylchiadau cywir) yn fodlon	Clerc	Hydref

	cymryd rhai o'r llochesi eraill drosodd.		
6. Adolygu Effeithiolrwydd – Llochesi Bysus	Gofyn i'r Tîm sy'n gweithio dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf i lanhau'r llochesi bysus sydd efo graffiti arnyn nhw.	Clerc	Diwedd Medi
6. Adolygu Effeithiolrwydd – Biniau Halen	Gwirio'r sefyllfa yn eu wardiau o ran os oedd nifer y biniau halen yn ddigonol, ac os oeddynt efo digon o halen ynddyn nhw.	Cynghorwyr	Hydref
6. Adolygu Effeithiolrwydd – Biniau Halen	Cynnal trafodaethau efo Cyngor Gwynedd o ran sefyllfa'r biniau halen yn y dref.	Cadeirydd / Clerc	Hydref
7. Meysydd parcio ac incwm posib	Trafod gyda'r swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd i weld sut fyddai cynllun o'r fath yn gweithio, a dod ac adroddiad yn ôl i'r pwyllgor hwn yn ei gyfarfod nesaf.	Cadeirydd / Is-gadeirydd	Hydref